# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**2023 dsc 4**

## RHAN 3

MATERION SY'N YMWNEUD AG AMAETHYDDIAETH
A CHYNHYRCHION AMAETHYDDOL

## PENNOD 1

CASGLU A RHANNU DATA

### 27 Gweithgaredd perthnasol: gofyniad i ddarparu gwybodaeth

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cynnal gweithgaredd perthnasol (ac nad yw'n berson sydd mewn cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn gyflenwi o'r fath) ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd i'r graddau y mae'n cael ei gynnal yng Nghymru.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cynnal gweithgaredd perthnasol (ac nad yw'n berson sydd mewn cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn gyflenwi o'r fath) ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd i'r graddau y mae'n cael ei gynnal yng Nghymru.

(3) Gweler adran 28 am ddarpariaeth ynghylch ystyr "gweithgaredd perthnasol".

(4) Ni chaniateir gosod gofyniad o dan is-adran (1) neu (2) ar berson mewn perthynas â gweithgaredd perthnasol i'r graddau y cynhelir y gweithgaredd ac eithrio i wneud elw neu i gael budd.

(5) Nid yw gofyniad a osodir ar berson o dan is-adran (1) neu (2) yn gymwys i ba wybodaeth bynnag y byddai gan y person, mewn achos cyfreithiol, yr hawl i wrthod ei darparu ar sail braint gyfreithiol.

(6) Rhaid i ofyniad o dan is-adran (1) fod yn ysgrifenedig.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 27 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

## Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 27 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I2** A. 27 mewn grym ar 17.10.2023 gan O.S. 2023/1092, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 27 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– s. 27 coming into force by 2023 asc 4 s. 56(4)